

Newid Byw dau Gyda'n Gilydd

Cefnogi cymunedau drwy'r pandemig



2020

2021



Croeso

Nid yw Sefydliad Cymunedol Cymru erioed wedi bod trwy amgylchiadau mor heriol yn yr 20 mlynedd ers ei sefydlu ond, allan o adfyd, rydym, yn ddi-os, wedi chwarae rôl bwysig mewn ymateb Cymru i'r pandemig Coronafeirws. Roedd ein gallu i gysylltu rhoddwyr, arianwyr a grwpiau cymunedol wedi'n galluogi i ddod â chyllid ychwanegol i gymunedau Cymru pryd a ble oedd yr angen mwyaf.

Cyfanswm ein grantiau am y flwyddyn oedd £5.5 miliwn, cynnydd anhygoel, dwbl ein cyfanswm blynyddol blaenorol. Mae hynny wedi'n galluogi i gefnogi mwy na mil o grwpiau wrth iddyn nhw frwydro trwy'r pandemig.

Mae partneriaeth yn greiddiol i sut mae Sefydliad Cymunedol Cymru'n gweithredu ac, eleni, yn fwy nag erioed, mae'r ffordd hon o weithio wedi bod wrth galon ein gwaith. Ar y cyd a'n rhoddwyr, rydym wedi adeiladu perthynasau gwaith agosach gyda Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU. Hoffwn dalu teyrnged i'n cydweithwyr yn Sefydliadau Cymunedol y DU ac yn yr Ymddiriedolaeth Argyfyngau Cenedlaethol, roedd y ddau'n hanfodol wrth ein helpu i ymateb i anghenion cymunedau Cymru yn ystod y pandemig.

Yn ogystal â'n harian argyfwng, rydym wedi parhau i weithio ar nifer o brosiectau tymor hirach i helpu cymunedau Cymru ddod allan o'r pandemig. Rydym wedi bod yn gweithio gyda'r Comisiwn Elusennau a Llywodraeth Cymru i lansio "Adfywio Ymddiriedolaethau", prosiect i adfywio ymddiriedolaethau sy'n segur ac i ryddhau arian i Gymru. Rydym hefyd yn dal i weithio gyda nifer o bartneriaethau i gryfhau gallu Cymru i sicrhau arian oddi wrth ymddiriedolaethau a sefydliadau'r DU.

Ar hyn y bryd mae yna £19 miliwn yn ein cronfeydd gwaddol, ar ôl adfer o'r cwmp yn y farchnad ar ddechrau'r pandemig. Felly, rydym yn gwneud cynnydd da i gyrraedd ein targed strategol o waddol o £30 miliwn i ddarparu arian cynaliadwy i genedlaethau i ddod yng Nghymru.

Rydym yn ffodus iawn fod y Sefydliad yn dal i elwa o Fwrdd cryf gyda chynrychiolaeth o bob rhan o Gymru. Hoffwn ddiolch i'm cyd-Ymddiriedolwyr am eu gwaith caled a'u cefnogaeth yn ystod flwyddyn na fu erioed ei bath.

Doedd neb yn gwybod beth oedd o'n blaen pan ddaeth y cyfnod clo ar 23 Mawrth 2020. Roedd yna ofn ac ansicrwydd wrth sylweddoli na fyddai bywyd byth yr un fath eto.

Beth oedd yn fy syfrdanu oedd pa mor gyflym yr ymatebodd ac yr addasodd Richard Williams a'i dîm i'r sefyllfa newydd, a pha mor gyflym yr oedd grantiau'n cael eu dosbarthu i gymunedau ledled Cymru. Yn hytrach na Phanel Grantiau unwaith y chwarter, roedd dau neu dri yr wythnos. Yn hytrach nag israddio rhywfaint o'n gwaith allanol, dangosodd y tîm cyfan hyblygrwydd mawr i weithio gyda'i gilydd gydag ymateb enfawr, ac angenrheidiol, i'r grantiau.

I lawer, mae eleni wedi bod yn flwyddyn o ystyried, adnabod y pethau pwysig mewn bywyd a sut i helpu eraill. Mae'r teimlad o ysbryd cymunedol, a oedd yn ymddangos ei fod wedi mynd ar goll, yn ffodus wedi'i ail ddarganfod. Mae gan bob un ohonom rôl mewn helpu i'n cymunedau ffynnu.

Mae yna lawer o ffyrdd y gallwch gefnogi Sefydliad Cymunedau Cymru; drwy sefydlu cronfa fel rhoddwr, fel unigolyn neu ar sail gorfforaethol: ymuno â Cyfeillion Sefydliad Cymunedol Cymru: gadael rhodd yn eich Ewyllys: cymryd rhan fel gwirfoddolwr neu dim ond trwy hyrwyddo'r grantiau sydd gennym ar gael i'w dosbarthu. Byddwn yn falch iawn o glywed oddi wrthyich.

Unwaith eto, diolch yn fawr iawn i bawb sydd wedi'n cyfrannu a'n cefnogi yn ystod y flwyddyn hon – diolch o galon!

Alun Evans

Cadeirydd, Sefydliad Cymunedol Cymru



Diolch

Mae Sefydliad Cymunedol Cymru'n gweithio ar y cyd â'n cefnogwyr a grwpiau cymunedol i newid bywydau.

Ar y tudalennau hyn byddwch yn gweld hanes ein 12 mis diwethaf wrth i ni ddangos sut, gyda haelioni pobl yng Nghymru, roedden ni'n darparu'r gefnogaeth yr oedd pobl ei angen i fynd trwy'r pandemig digynsail hwn.

Wrth gwrs, nid yw ein gwaith byth yn gorffen ac mae cymunedau yng Nghymru'n dal i wynebu heriau enfawr.

Mae gan y grwpiau cymunedol gwych rydym yn gweithio gyda nhw lawer o'r atebion i'r problemau hyn – y cyfan y maen nhw ei angen yw ychydig bach o gymorth oddi wrthym i gyd.

Rwy'n gobeithio y bydd yr hyn y byddwch yn ei ddarllen yn rhoi dealltwriaeth ddyfnach o'n gwaith ac y byddwch yn cael eich ysbrydoli i'n cefnogi – edrychwn ymlaen at glywed oddi wrthyh.

Diolch yn fawr

Richard Williams

Prif Weithredwr, Sefydliad Cymunedol Cymru



Ein blwyddyn mewn rhifau



Swm y grant ar gyfartaledd

£5,237



Cefnogwyd dros
1,000
grwpiau



Nifer y grantiau

1,157



Cyfanswm y gwaddol

£19,993,081



Cyfanswm incwm

£6.74m

Cyfanswm gwariant

92% Grantiau

5% Costau staff

1% Gorbenion swyddfa

2% Costau uniongyrchol eraill



Gwerth #1

Rydym ni'n bartneriaid da

Mae'n rhaid i Sefydliad Cymunedol Cymru lwyddo i weithio mewn partneriaeth i gysylltu arianwyr a rhoddwyr gyda'r cymunedau sydd angen cefnogaeth.

Mae gennym amrywiaeth eang o bartneriaethau, rhai hir dymor a rhai newydd, gyda rhoddwyr ac arianwyr, grwpiau cymunedol, awdurdodau lleol, busnesau, Llywodraeth, bancwyr buddsoddi, ymgynghorwyr proffesiynol a sefydliadau eraill.

Fe hoffem ni rannu rhai o lwyddiannau'r partneriaethau hyn ac annog sefydliadau eraill i ymuno â ni yn ein gwaith i gryfhau cymunedau yng Nghymru.

Partneriaeth hanfodol mewn ymateb i'r pandemig

Lansiodd yr Ymddiriedolaeth Argyfyngau Cenedlaethol yr Apêl Coronafeirws mewn ymateb i'r pandemig gan sefydlu cytundeb cyflwyno grantiau trwy Sefydliadau Cymunedol y DU, a arweiniodd at bartneriaeth gyda Sefydliad Cymunedol Cymru.



Roedd hynny'n hwb sylweddol i'n hymdrechion i helpu ariannu'r sector yng Nghymru trwy'r argyfwng ac yn gychwyn ar ymateb cyflym, heini.

Meddai **Mhairi Sharp, Prif Weithredwr yr Ymddiriedolaeth Argyfyngau Cenedlaethol:**

“

Mae Sefydliad Cymunedol Cymru wedi bod yn bartner hanfodol i'r Ymddiriedolaeth Argyfyngau Cenedlaethol ac yn rhan o grŵp ehangach o Sefydliadau sydd, ar y cyd, wedi cefnogi mwy na 13,000 o elusennau ledled y DU yn ystod y 15 mis diwethaf.

O fewn 72 awr o dderbyn arian yr Ymddiriedolaeth Argyfyngau Cenedlaethol roedd gan Sefydliad Cymunedol Cymru arian ar gael i wneud gwahaniaeth ar lefel pentref a stryd. Ar 26 Mawrth, dri diwrnod yn unig i mewn i'r cyfnod clo cenedlaethol cyntaf, derbyniodd Cymru Creations grant o £2,000 i ddarparu bwyd a hanfodion. Roedd hynny'n nodi dechrau blwyddyn ddiflino i'r tîm yn Sefydliad Cymunedol Cymru o gyflwyno grantiau.

Arweiniodd ymroddiad tîm Sefydliad Cymunedau Cymru at brydau, llety, diogelwch, cefnogaeth a chynghor ar gael i gymunedau ledled Cymru. Mae gwaith y Sefydliad a'i rwydwaith heb os wedi achub bywydau ac wedi cefnogi'r genedl yn awr ei hangen.



”

Cysylltiadau newydd

Roedd **Admiral** a **Dŵr Cymru** ymysg busnesau arweiniol Cymru a oedd ar y blaen yn cefnogi ein hapêl Coronafeirws, gan sicrhau fod grwpiau cymunedol yng Nghymru'n derbyn cefnogaeth dda trwy'r pandemig.

Yn ystod y flwyddyn dechreuwyd ar bartneriaeth newydd gyda **Castle Dairies**, sy'n cyfrannu canran o'u helw blynyddol i gefnogi cyfleoedd addysg STEM ar gyfer pobl ifanc, a **First Great Western**, sy'n cefnogi prosiectau mewn cymunedau sy'n byw lle mae eu gwasanaethau rheilffordd.



Adfywio ymddiriedolaethau

Mae Llywodraeth Cymru a'r Comisiwn Elusennau'n gweithio mewn partneriaeth gyda Sefydliad Cymunedol Cymru i ddarparu rhaglen Adfywio Ymddiriedolaethau er mwyn rhyddhau £25 miliwn sy'n segur mewn cronfeydd segur.

Bydd y Comisiwn yn nodi elusennau yng Nghymru sydd naill ai'n segur (sy'n golygu nad oedd incwm na gwariant yn ystod y 5 mlynedd diwethaf) neu'n aneffeithiol (wedi gwario llai na 30% o gyfanswm eu hincwm dros y 5 mlynedd diwethaf).

Bydd y Comisiwn yn rhoi dewis i'r ymddiriedolwyr i weithredu unwaith eto – gyda chymorth i gael yr elusen yn ôl ar ei thraed ac yn gweithredu os bydd angen. Neu, bydd yr arian yn cael ei ailgyfeirio at achosion sy'n cyd-fynd ag amcanion yr elusen segur, neu bydd ymddiriedolaeth yn cael ei throsglwyddo i Sefydliad Cymunedol Cymru i'w rheoli yn y tymor hir er budd cymunedau lleol.



Llywodraeth Cymru
Welsh Government



CHARITY COMMISSION
FOR ENGLAND AND WALES

Meddai **Jane Hutt, Dirprwy Weinidog a Phrif Chwip Llywodraeth Cymru:**

“

Bydd Rhaglen Adfywio Ymddiriedolaethau Cymru'n helpu elusennau ac ymddiriedolaethau i wneud defnydd o adnoddau prin drwy gefnogi'n cymunedau yng Nghymru.

Drwy'r rhaglen, hefyd, rydym ni'n adeiladu ar ein perthynas ar hyn o bryd gyda Sefydliad Cymunedol Cymru.

Mae'n sefydliad rhagorol sydd wedi darparu arian o'r Ymddiriedolaeth Argyfyngau Cenedlaethol i gefnogi sefydliadau gydol y pandemig.



”

Gweithio gyda STEP

Rydym yn gweithio'n agos gyda phartneriaid yn STEP, y corff proffesiynol ar gyfer cyfreithwyr, cyfrifwyr, ymgynghorwyr ariannol ac ymarferwyr eraill sy'n helpu teuluoedd i gynllunio ar gyfer eu dyfodol.

Fis Tachwedd ymunodd ein rheolwr Rhoi Dan Gyngor y Rhoddwr, Katy Hales, â chynhadledd Spotlight STEP am sesiwn ar Roi'n Effeithiol yn Lleol, i drafod y rôl hanfodol sydd gan sefydliadau cymunedol gyda dyngarwyr yn y DU, Unol Daleithiau a Canada.

Roedd yn ffrainc fawr i Sefydliad Cymunedol Cymru, gyda'r panel hefyd yn cynnwys Robert Kleinman o Sefydliad Cymunedol Iddewig Montreal a Lorie Slutsky, Prif Weithredwr Sefydliad Cymunedol Efrog Newydd.

Buddsoddi wedi'i leoli yng Nghymru

Ein cronfeydd gwaddol yw'r ffordd rydym ni'n dal i ariannu grwpiau yng Nghymru, heddiw ac ar gyfer y cenedlaethau'r dyfodol.

Mae'n cronfeydd yn cael eu rheoli gan ein partneriaid rheoli buddsoddi – Brewin Dolphin, sydd yng nghanol dinas Caerdydd, a CCLA, sy'n rheoli buddsoddiadau ar gyfer elusennau, sefydliadau crefyddol a'r sector cyhoeddus.

Gwerth #2

Rydym yn dangos gofal am bobl sydd yn gweithio gyda ni

Rydym ni'n deall pa mor bwysig yw teimlo eich bod yn cael eich gwerthfawrogi, gwybod fod pobl eraill yn parchu ac yn ymddiried yn eich barn.

Mae dangos cydymdeimlad yn ein helpu i adeiladu perthynasau cryfach, hirach, gyda'n rhoddwyr a'n harianwyr, gyda'r grwpiau a'r unigolion rydym yn eu hariannu, gyda'n rhanddeiliaid a'n tîm.

Amlygodd deuddeg mis diwethaf fwy nag erioed o'r blaen fod angen dangos caredigrwydd, gwrando a helpu pobl eraill pryd bynnag y mae'n bosibl.

Hoffwn sôn wrthyf am rai o'r ffyrdd rydym ni wedi cefnogi'r rhai rydym wedi gweithio gyda nhw er mwyn sicrhau eu bod yn gwybod faint rydym yn eu gwerthfawrogi.

Cronfa Gwytnwch Coronafeirws Cymru

Un o'r geiriau a ddiffiniodd 2020 yw 'pandemig' - yn llythrennol mae'n golygu effeithio ar bawb. Yng Nghymru, trawodd y pandemig Coronafeirws ond ychydig wythnosau ar ôl i lawer o'n cymunedau gael eu bwrw gan lifogydd difrifol.

Roedd pobl yn dioddef, nid yn unig yn gorfforol oherwydd iechyd gwael, ond hefyd yn emosiynol, yn gymdeithasol ac yn economaidd. Rydym ni'n credu'n gryf mai ein cyfrifoldeb ni yw dangos cydymdeimlad a chynnig amddiffyn y rhai sy'n fwyaf bregus yn ein cymdeithas.

Ein Cronfa Gwytnwch Coronafeirws Cymru oedd ein ffordd o wneud hynny. Roedd yn le i bobl ddod ynghyd i ddangos eu cefnogaeth.

Rydym yn ddiolchgar i'r Ymddiriedolaeth Argyfyngau Cenedlaethol, Admiral, Waterloo Foundation, Principality, Dŵr Cymru, Track 2000 a nifer o unigolion a sefydliadau eraill am ein helpu i adeiladu cronfa a ddosbarthodd dros £5.5 miliwn i'r fyddin anhygoel o elusennau a grwpiau ar draws Cymru sydd wedi gweithio'n ddiflino i helpu pobl yn eu cymunedau ar adeg mor heriol a chyfnewidiol.

Fe wyddom y gall grwpiau ddefnyddio'r amser o ysgrifennu cais yn well ar ganolbwyntio ar ddarparu gwasanaeth yn uniongyrchol felly, rydym ni wedi gwneud ein proses rhoi grantiau mor hygyrch a hyblyg â phosibl.

Yn y rhan fwyaf o achosion roeddem ni'n gallu penderfynu ar geisiadau am grant mewn wythnos, diolch i ymroddiad anhygoel ein tîm a'n Ymddiriedolwyr.

Roeddem ni'n addasu ein meini prawf fel yr oedd y pandemig yn symud ymlaen, yn cynnig arian i'r rhai a oedd yn dal i ymateb i'r sefyllfa argyfwng yn ogystal ag i'r rhai a oedd yn edrych i'r dyfodol at yr heriau o adfer ar ôl digwyddiad mor llethol a byd eang. Roedd anghenion y rhai yr oeddem yn eu cefnogi wastad ar flaen ein meddyliau.



Addasu i'r normal newydd

Fel ag yr oedd i lawer o sefydliadau, roedd y cyfnod clo cenedlaethol yn golygu fod yn rhaid i'r tîm weithio o gartref ar unwaith. Cymerodd ychydig o ddyddiau i setlo i'r ffordd newydd o weithio ac i sicrhau fod gan bawb popeth yr oedden nhw ei angen i weithio'n ddiogel ac yn gyfforddus gyda mynediad at offer a ffeiliau ayb.

Daeth yn amlwg i ni yn fuan iawn beth mae'n ei olygu i fod yn styc gartref gyda sgriniau cyfrifiaduwr yr un ffordd o gysylltu - doedd gweithio gartref a dysgu/ gofalu am y plant gartref trwy Teams a Zoom, yn aml yr un pryd, byth yn mynd i fod yn hawdd.

Recriwtiwyd dau aelod newydd o staff a hefyd dri ymddiriedolwr yn ystod y cyfnod hwn - dipyn o sialens heb gyfarfod wyneb yn wyneb.

Mae iechyd a llesiant ein tîm wastad wedi bod yn uchel ar ein hagenda, ac mae'n anodd gwybod a ydych yn gwneud gwaith da, yn enwedig os nad ydych yn adnabod rhai aelodau o'r tîm.

Er mwyn ceisio cynnal cydbwysedd gwaith bywyd da a gwarchod iechyd a llesiant y tîm roeddem wedi:


- gweithio'n galed i gadw rhywfaint o ryngweithio cymdeithasol gyda chiniawau 'cymunedol', cwisys a blasu te / bisgedi dros Teams / Zoom.



- cynnal ychydig o hyfforddiant Iechyd a Llesiant tîm a hunan asesiad Llesiant staff.
- annog sgwrs agored a chynnal gwirio i mewn misol gyda'r tîm.
- hyrwyddo egwyliau rheolaidd o'r sgrin a chymeradwyo gwneud y gorau o'n hamgylchedd naturiol er mwyn ail wefru'r batris ac ymlacio.

Meddai **Rhiannon Walsh**, Swyddog Grantiau a ymunodd â'r tîm fis Hydref 2020:

“ Un o'r pethau sydd wedi fy nharo am weithio gyda Sefydliad Cymunedol Cymru yw pa mor iach a phositif yw'r amgylchedd waith. Ers fy niwrnod cyntaf ym mis Hydref, rwyf wedi cael argraff dda gyda nid yn unig y pwyslais mae'r sefydliad wedi'i roi ar iechyd meddwl a llesiant, ond hefyd yr hyn sy'n cael ei wneud i droi'r pethau hynny'n ymarferol. Yn ystod fy wyth mlynedd yn y Trydydd Sector a'r Sector Addysg, dydw i erioed wedi bod mewn gweithle sydd wedi gwneud i mi deimlo fy mod yn cael fy ngwerthfawrogi, a bod pobl yn fy neall ac yn gwranddo arnaf gymaint.



”

Yn Uchel ac yn Groch

Fis Medi 2020, cyhoeddwyd ein hadroddiad Yn Uchel ac yn Groch, gan ddod â sylwadau dros 100 grŵp yng Nghymru ynghyd ar sut y gallai Sefydliad Cymunedol Cymru ac arianwyr eraill cefnogi'u gwaith yn fwyaf effeithiol.

Roedd yr adroddiad yn ganlyniad i'n tîm fynd allan a chyfarfod â grwpiau ac elusennau o ledled Cymru, yn siarad ac yn bwysicach, gwranddo ar beth oedd ganddyn nhw i'w ddweud.

Drosodd a throsodd, clywsom yr un negeseuon – roedden nhw eisiau mwy o arian craidd er mwyn eu galluogi i fodoli a phartneriaethau hirach gydag arianwyr.

Yr hyn nad oedden nhw ei eisiau oedd y chwyrlligwgan parhaus o orfod cyflwyno ceisiadau am arian tymor byr sy'n sugno amser ac egni, y gellid eu defnyddio'n well yn rhedeg y gwasanaethau i helpu pobl.

Dyma ddywedodd cwpl o grwpiau roedden ni'n siarad â nhw:



Canolfan Merched Gogledd Cymru

“Mae arian yn her barhaus. Mae ansicrwydd yn effeithio ar drosiant staff – pobl yn gadael os ydyn nhw'n yn ansicr.

Cynaliadwyedd yw ein problem fwyaf – nid arian yn unig.

Nid yw arian tymor byr yn caniatáu dilyniant ac mae'n effeithio ar beth mae'r gymuned yn ei ddisgwyl gennym.”

Cylch Meithrin Wyddgrug

“Mae yna digonedd o ariannwyr sy'n gallu ein helpu i brynu offer a rhedeg prosiectau.

Mae'n cypyrddau'n byrstio gyda thegannau a phethau i redeg gweithgareddau. Ond doedd gennym ni ddim arian i droi'r golau ymlaen a thalu'r yswiriant a chyflogau.

Canfod arian craidd i'n cadw ni'n agored yw ein her bennaf.”

Edrych Ymlaen

Wrth i ni ddychwelyd at 'fusnes fel arfer' a dechrau agor ein cronfeydd sydd wedi'u hen sefydlu eto, byddai'n gamgymeriad peidio â defnyddio'r hyn rydyn ni wedi'i ddysgu wrth baratoi ein grantiau.

Ble bynnag bo'n bosibl rydym wedi ail ffurfio meini prawf ein cronfeydd er mwyn cynnig arian craidd am sawl blwyddyn. Rydym hefyd wedi newid ein prosesau mewnol er mwyn sicrhau ein bod yn gallu cynnig arian am sawl blwyddyn heb effeithio ar y prosiectau sydd ond angen arian am un flwyddyn.

Os yw Cymru a'i phobl yn golygu llawer iawn i chi, fel ag y mae i ni, ac os hoffech chi weithio gyda ni er mwyn talu'n ôl mewn unrhyw ffordd, gallwch gyflwyno rhodd trwy ymweld â'n gwefan neu, os hoffech chi fod yn wirfoddolwr, mae gennym ni nifer o gyfleoedd ar gael - fe fydden ni wrth ein bodd yn clywed oddi wrthyh.

Gwerth #3

Rydym yn gwneud gwahaniaeth

Rydym yn anelu at wneud gwahaniaeth gyda phopeth rydym yn ei wneud.

Efallai bod hynny trwy'r arian rydym yn ei ddosbarthu, y gefnogaeth rydym yn ei roi i sefydliadau'r trydydd sector neu'r arweiniad rydym yn ei roi i ddyngarwyr i allu cyfrannu at yr achosion maen nhw'n angerddol yn eu cylch, gan sicrhau'r effaith fwyaf yn y meysydd sy'n golygu fwyaf iddyn nhw.

Mae eleni wedi bod yn wahanol mewn sawl ffordd ac rydym wedi addasu ein ffordd o weithio a'r math o gefnogaeth grant rydym yn ei gynnig er mwyn cyfarfod ag anghenion cyfnewidiol cymunedau ar draws Cymru.

Rydym wedi gwrando ar yr hyn y mae'r trydydd sector wedi'i ddweud wrthym ac wedi addasu ein ffordd o weithio er mwyn gwneud y gwahaniaeth mwyaf gyda'r arian sydd ar gael i ni.

Blwyddyn heriol

Daeth y pandemig â heriau mwy a newydd wrth i'r cyfnod clo gael ei gyhoeddi, busnesau'n gorfod cau eu drysau, gweithwyr yn brwydro i gael dau ben llinyn ynghyd ar ôl cael eu gosod ar ffyrlo, neu'u diswyddo, a daeth ynysu yn rhywbeth roedd yn rhaid i bawb ei wneud.

Cafodd ein cronfeydd arferol i gyd eu newid am 'Gronfa Gwytnwch Coronafeirws Cymru' a lansiwyd 23 Mawrth 2020 ar gyfer grwpiau cymunedol lleol ac elusennau'n gweithio'n ddiflino i addasu eu gwasanaethau i gefnogi rhai oedd fwyaf bregus i effeithiau'r feirws.

Addasu i anghenion cyfnewidiol

Gydol y flwyddyn, roedden ni'n gwranddo ar beth oedd sefydliadau ei angen i ddal ati ac yn addasu'r meini prawf i gyfarfod yr anghenion cyfnewidiol hynny. I wneud yn siŵr ein bod yn deall yr heriau roedd y grwpiau'n eu hwynebu, fe gynhalion ni arolwg yn ystod wythnosau cyntaf y pandemig.

Yn ôl grwpiau a ymatebodd, roedd cynnydd o **62%** ar gyfartaledd yn y galw am gefnogaeth.

Bwyd a **chyflenwadau hanfodol** ar gyfer teuluoedd ar incwm isel oedd rhai o'r anghenion pennaf.

Aeth **29%** o'r holl grantiau i brosiectau'n tacllo tlodi bwyd a danfon bwyd i bobl fregus.

Dangosodd yr arolwg hefyd mor anodd oedd hi i rai grwpiau a oedd, fel arfer, yn hunan gynhaliol gydag incwm da yn dod o ddigwyddiadau codi arian a siopau elusen. Disgynnodd incwm y sefydliadau hyn i ddim dros nos wrth i siopau elusen gau a phob digwyddiad gael ei ganslo.

Roedden ni'n ariannu nifer o'r grwpiau hyn gyda grant i dalu eu costau craidd er mwyn iddyn nhw allu dal ati gyda'u gwasanaethau i'r rhai a oedd angen gofal neu gefnogaeth ar adeg mor argyfyngus yn eu bywydau.


Tynnodd yr ymgyrch 'Black Lives Matter' fis Mai 2020 sylw at y diwylliannau Du, Asiaidd a Lleiafrifol Ethnig (BAME) gan ddangos pa mor ddinistriol oedd effeithiau'r Coronafeirws ar eu bywydau.

Roedden ni eisoes wedi ymestyn allan i'r sector hwn, gan gynnig grantiau i helpu grwpiau i gyfathrebu gyda'r Llywodraeth gyda negeseuon i achub bywydau trwy rannu taflenni, gyda galwadau ffôn a chefnogaeth ar lein. Byddwn yn adeiladu ar hyn ac yn dal i weithio gyda'r grwpiau hyn i ddeall a chynrychioli'n well ddiwylliannau amrywiol.

Edrych Ymlaen

Fis Medi, cafodd ein cronfeydd ei addasu er mwyn talu sylw i'r newid yn y pwyslais oedd i'w weld mewn ceisiadau. Caewyd ein Cronfa Gwytnwch Coronafeirws Cymru ac agorwyd ein Cronfa Ymateb ac Adfer a oedd yn cefnogi sefydliadau oedd yn ymateb mewn argyfwng mewn ardaloedd o dan gyfyngiadau'r cyfnod clo, ond a oedd hefyd ar gael i sefydliadau yn canolbwyntio ar adfer o'r argyfwng i ddatblygu hunan gynhaliath a gwytnwch, atebion yn hytrach na symptomau.

Yn ystod chwarter olaf y flwyddyn ariannol hon, rydyn ni wedi defnyddio'r hyn rydyn ni wedi'i ddysgu o ganfyddiadau'r Adroddiad Yn Uchel ac yn Groch i addasu'r arian sydd ar gael y flwyddyn nesaf i hyrwyddo arian craidd a sawl blwyddyn i sefydliadau llawr gwlad.



Cipolwg o bwy ydym ni wedi'u helpu

Oasis Caerdydd

Mae Oasis, Caerdydd, yn cefnogi ffoaduriaid a cheiswyr lloches i gyfuno a chymryd rhan yng nghymuned leol Caerdydd ac ymhellach.

Gyda grant o Gronfa Gwytnwch Coronafeirws Cymru roedden nhw'n gallu darparu prydau a pharseli bwyd diwylliannol addas yn ystod y cyfnodau clo i'r rhai a fyddai fel arfer yn mynychu'r ganolfan.

Morrison, Gwirfoddolwr

"Fe adewais i Swdan pan oeddwn i'n 18 oed gan fod rhyfel wedi torri allan. Roedd y daith yn hynod anodd.

Roeddwn i gyda ffrind a chafodd ef ei ladd ar y ffordd. Roedd mor anodd ar ôl colli fy ffrind a phrin ei bod yn bosib anghofio'r pethau rwy wedi bod trwyddyn nhw.

Helpodd Oasis fi i ail adeiladu fy hun, mae fel cartref i mi. Rwy mor falch yn gallu talu'n ôl i'r gymuned am yr hyn y maen nhw wedi'i wneud i mi."



Reynette Roberts, Cyfarwyddwr

"Mae'n rhaid cael bwyd. Dyma sy'n dod â phobl at ei gilydd a'u gwneud i deimlo'n debyg i'w gilydd.

Pan oedd y cyfyngiadau'n caniatáu, rydyn ni hefyd wedi defnyddio maes parcio rydyn ni wedi addasu ar gyfer ein trelar bwyd a phabell fawr er mwyn i gleientiaid allu eistedd a gwella eu hiechyd meddwl a chymdeithasu.

Mae llawer wedi dweud cymaint y mae wedi eu helpu i gael lle diogel i ddod iddo yn ystod y cyfnod anodd hwn."

Cymdeithas MS Cymru

Symudodd Cymdeithas MS Cymru'n gyflym i gefnogi pobl gyda Sglerosis Ymledol (MS) pan drawodd pandemig Covid-19 fis Mawrth 2020. Roedd llawer o'r bobl hyn yn "cysgodi" oherwydd eu bod yn cael eu cyfrif yn risg uchel ac eraill yn hunan ynysu oherwydd negeseuon cymysg a dryswch.

Doedden nhw ddim yn gallu cefnogi pobl yn y ffordd draddodiadol - wyneb yn wyneb a chysylltu - felly addaswyd eu gwasanaethau'n gyflym i ddarparu 'Canolfan Iechyd a Llesiant' ar lein oedd yn cynnig cefnogaeth a rhaglen o weithgareddau i'w cymuned MS. Helpodd y gwasanaeth i liniaru heriau'r pandemig - cadw pobl â, neu'n cael eu heffeithio gan, MS mewn cysylltiad ac i symud yn eu cartrefi eu hunain.



Isod, mae Jackie'n egluro pwysigrwydd y ganolfan Iechyd a Llesiant:

“

Dim ond deirgwaith rydw i wedi bod allan o'r tŷ ers mis Mawrth diwethaf. Does dim rhaid i mi ynysu ond rwy'n fregus oherwydd, pan fydda i allan, alla i ddim symud o ffordd rhywun yn ddigon cyflym.

Rwy'n byw ar fy mhen fy hun, mae fy merch a gwirfoddolwr lleol yn siopa ar fy rhan. Rwyf wastad wedi bod yn annibynnol ac yn gwneud fy mhethau fy hun, roedd yn anodd gofyn i rywun arall wneud pethau ar fy rhan ond roedd yn rhaid i mi ddygymod.

Mae pethau mor wahanol nawr, ond mae'n rhaid i ni wneud yn siŵr ein bod yn dal i gysylltu â'n gilydd, hyd yn oed os yw hynny ond yn ffonio rhywun, rydyn ni wastad ar ben arall y ffôn.

Mae bod ar lein wedi golygu fy mod i wedi cymryd rhan mewn gweithgareddau na fyddwn i'n eu gwneud fel arfer. Erbyn hyn, rwy'n gwneud tai chi, ffisio, ioga, bore coffi, bingo, cwis, gwau a chrefftau, côr, tafarn ac amser i sgwrsio. Rwy mor brysur, ryw'n meddwl, beth oeddwn i'n ei wneud â'm hamser o'r blaen?

”

Help Harlech

Harlech

Cafodd Help Harlech grant i gefnogi'r galw dyddiol am eu gwasanaeth ac i allu prynu offer diogelwch i ddiogelu eu gwirfoddolwy ar eu teithiau danfon aml.



Bike to the Future

Powys

Helpodd y grant Bike to the Future i ddefnyddio eu beic trydan cargo i rannu bwyd a bagiau o lysiau yn y gymuned leol.

Cyfarfod a Cyfeillion Newydd

Rydym ni wedi bod yn croesawu llawer o Gyfeillion newydd i Sefydliad Cymunedol Cymru, unigolion ac ar lefel sefydliad, eleni, ac yn ddiolchgar am y gefnogaeth rydyn ni'n ei dderbyn oddi wrth bob un o'n haelodau.

Yn ddiweddar, rydyn ni wedi cyflwyno 'Aelodaeth Rodd' sy'n galluogi cefnogwyr i enwebu person i dderbyn aelodaeth i rwydwaith Cyfeillion Sefydliad Cymunedol Cymru, a rhoi cost yr aelodaeth flynyddol yn rhodd iddyn nhw.

Am gyfraniad aelodaeth flynyddol o £100 i unigolyn neu £500 i sefydliad, gall Cyfeillion:

- amlygu eu cysylltiad â Sefydliad Cymunedol Cymru
- dangos eu cefnogaeth i elusen Gymreig leol
- derbyn blaenoriaeth wrth gael gwahoddiadau i'n digwyddiadau
- derbyn diolch yn fawr personol ar ein gwefan ac yn ein hadolygiad blynyddol
- cael cyfleodd i hyrwyddo ar y cyfryngau cymdeithasol, ar lein ac yn y wasg

Gallwch ganfod rhagor ynghylch Aelodaeth a'r Aelodaeth Rodd yma.

Isod, mae rhai o'n Cyfeillion yn egluro pam eu bod wedi ymuno â'r rhwydwaith:



brand
content.

"Cyfrifoldeb pawb yw sbarduno newid cadarnhaol yn eu cymuned. Mae'n hawdd mynd ar goll yn eich byd eich hun, mynd o gwmpas eich bywyd bob dydd a pheidio ag ystyried y rhai nad ydyn nhw'n cael yr un cyfleodd. Ond os ydym i gyd yn rhoi ychydig, gallwn greu cyfleodd teg a byd gwell i bawb"

Kevin Gardiner

"Yn falch o allu rhoi ychydig yn ôl i'm cymuned trwy'r gefnogaeth y mae Sefydliad Cymunedol Cymru'n ei dargedu."

Diane McCrea

"Pan ganfûm mwy am waith gwych Sefydliad Cymunedol Cymru, ac yn enwedig wrth gefnogi ein cymunedau yng Nghymru yn ystod Covid, roeddwn am roi fy nghefnogaeth drwy ddod yn Gyfaill.

Mae'n ffordd hawdd i wybod bod fy nghyfraniad bach yn gwneud gwneud gwahaniaeth go iawn."



JONES BROS
CIVIL ENGINEERING UK

"Rydym yn falch o fod yn Gyfaill i Sefydliad Cymunedol Cymru, ac rydym bob amser yn awyddus i gefnogi prosiectau cymunedol lleol yng Nghymru."

Yr her o'n blaenau

Ni ellir gwadu fod y byd wedi dod yn lle cwbl wahanol ers dechrau'r pandemig.

Mae yna gynnydd wedi bod mewn rhoddion elusennol, ond hefyd gynnydd ynghylch sut y mae rhoddion elusennol wedi cael eu gwario.

Mae hyn yn dangos i ni bwysigrwydd ymddiriedaeth wrth roi.

Yn Sefydliad Cymunedol Cymru, mae adeiladu'r lefel yna o ymddiriedaeth yn greiddiol i'n gwaith.

Rydyn ni'n anelu at sicrhau fod pob un o'n cefnogwyr yn hyderus eu bod yn gallu:

- Ymddiried fod yr arian yn mynd i'r lle iawn
- Ymddiried ei fod yn cael ei wario'n ddoeth
- Ymddiried fod yr arian yn gwneud gwahaniaeth parhaol, gweladwy.

Mae ein harbenigedd mewn gwneud grantiau a'n gwybodaeth o brosiectau llawr gwlad yng Nghymru, yn ogystal â chyfraniadau hael oddi wrth ein cefnogwyr, yn gwneud yn siŵr fod yr arian yn cyrraedd cymunedau ym mhob rhan o'r wlad.

Rydyn ni'n mynd y tu hwnt i ddim ond cynnig grantiau i unigolion a sefydliadau. Rydwn ni'n cysylltu pobl ag arian gyda phrosiectau a syniadau sy'n creu newid positif ac atebion cynaliadwy ar gyfer cymunedau ledled Cymru.



Partneriaethau newydd

Eleni, rydwn ni wedi derbyn sawl deilydd cronfa newydd.

Agorodd Castle Dairies gronfa gorfforaethol flynyddol, gan fuddsoddi canran o'u helw bob blwyddyn. Mae Cronfa Castle Dairies yn canolbwyntio ar gefnogi pobl ifanc yn sir Caerffili mewn addysg bellach neu uwch sydd angen cymorth a bydd y rhai sy'n astudio pynciau STEM yn cael blaenoriaeth.

Rydwn hi hefyd wedi agor cronfa Seaburne, cronfa Effaith Uniongyrchol. Mae Cronfa Seaburne ar gyfer Cymru gyfan. Mae'n canolbwyntio ar gefnogi pobl mewn addysg bellach neu uwch sydd ag angen gwirioneddol am gefnogaeth ariannol, ac na fyddai'r cyfleoedd addysgol yn bosibl iddyn nhw heb gefnogaeth ariannol ychwanegol.

Gallwch chi ein helpu ni i wneud mwy

Sefydlu cronfa gyda Sefydliad Cymunedol Cymru yw'r ffordd hawsaf a mwyaf effeithiol o roi arian i achosion lleol heb orfod sefydlu cronfa neu elusen eich hunan. Trwy roi gyda ni, byddwch yn gallu canolbwyntio ar sut a ble y byddwch yn dymuno rhoi.

A ydych eisiau cyfrannu arian ar gyfer effaith uniongyrchol neu sefydlu gwaddol hir dymor? Gallwn ni eich helpu chi i gyfeirio eich rhoddion at yr hyn sy'n wirioneddol bwysig i chi a chreu newid cynaliadwy.

Pan fyddwch chi'n rhoi i Sefydliad Cymunedol Cymru, nid cyfraniad yn unig ydych chi'n ei roi - rydych yn dweud wrthym ni eich bod yn credu yn y gwaith hwn, yn y genhadaeth hon i wella bywydau yng Nghymru, ac yn y tîm sy'n gwneud iddo ddogwydd.

Os yw hyn yn rhywbeth rydych chi â diddordeb ynddo, cofiwch gysylltu â ni i drafod sut y gallwn ni eich helpu i gyrraedd eich amcanion dyngarol, nawr ac yn y dyfodol.



Community Foundation Wales
St Andrews House
24 St Andrews Crescent
Cardiff
CF10 3DD

02920 379580

www.communityfoundationwales.org.uk



info@communityfoundationwales.org.uk



[@foundationwales](https://twitter.com/foundationwales)



[@walescf](https://www.facebook.com/walescf)

Charity Number 1074655

Company Number 03670680

Community Foundation Wales is the trading name of The Community Foundation in Wales